**Cyflwynwyd yr ymateb hwn i ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i egwyddorion cyffredinol y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru)**

**This response was submitted to the Children, Young People and Education Committee inquiry into the general principles of the Tertiary Education and Research (Wales) Bill**

**TER 13**
**Ymateb gan: Cyngor y Gweithlu Addysg**
**Response from: Education Workforce Council**

---

**Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru)**

Diolch i chi am eich ebost dyddiedig 5 Tachwedd 2021 yn gofyn am safbwyntiau parthed egwyddorion cyffredinol Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru).

Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA) yw'r corff rheoleiddio proffesiynol ar gyfer y gweithlu addysg yng Nghymru, ac mae'n cynnwys athrawon a staff cymorth dysgu mewn ysgolion a lleoliadau addysg bellach (AB), gweithwyr proffesiynol dysgu seiliedig ar waith a gweithwyr ieuenctid / gweithwyr cymorth ieuenctid. O dan Ddeddf Addysg (Cymru) 2014, prif nodau a swyddogaethau'r Cyngor yw i wneud y canlynol:

- Cyfrannu at wella safonau addysgu ac ansawdd dysgu yng Nghymru
- Cynnal a gwella safonau ymddygiad proffesiynol ymysg athrawon ac eraill sy'n cynorthwyo addysgu a dysgu yng Nghymru
- Diogelu buddiannau dysgwyr, rhieni a'r cyhoedd a chynnal ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn y gweithlu addysg

Mae'r Cyngor yn cyfyngu ei sylwadau i faterion sydd o fewn ei gylch gwaith statudol ac yn hyn o beth mae ganddo nifer fach o bwyntiau y mae'n gwahodd y Pwyllgor i'w hystyried.

**<u>Cofrestru a rheoleiddio proffesiynol</u>**

Fel y rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer y gweithlu addysg yng Nghymru, mae'n ddiddorol i CGA nodi bod y 'Gweithlu Addysg Drydyddol' y cyfeirir ato yn y Bil yn cynnwys athrawon a staff cymorth addysg bellach (AB) ac addysg uwch (AU). Fodd bynnag, mae'n nodedig nad oes gofyn i'r sawl sy'n addysgu mewn lleoliadau AB gofrestru gyda'r Cyngor, er bod gofyn i athrawon AB, staff cymorth dysgu AB ac ymarferwyr dysgu seiliedig ar waith gofrestru. Mae'r CGA yn gwahodd y Pwyllgor i ystyried yr anghysondeb hwn.

Mae'r Cyngor yn nodi mai rôl allweddol i'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (y Comisiwn), yn Rhan 1 o'r Bil, yw "sicrhau bod aelodau'r gweithlu addysg drydyddol yn gallu darparu addysg drydyddol o ansawdd uchel”. Dymuna'r Cyngor amlygu manteision cofrestru a rheoleiddio athrawon AB, staff cymorth dysgu AB ac Ymarferwyr DSW. Mae’r rhain yn cynnwys helpu i wella safonau addysgu ac ansawdd dysgu yng Nghymru, diogelu buddiannau dysgwyr, rhieni a'r cyhoedd a helpu i gynnal ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn y gweithlu addysg. Credwn y gallai ymestyn y gofyniad i gofrestru gyda CGA i gynnwys y sawl sy'n addysgu mewn lleoliadau AU helpu

9fed Llawr
Tŷ Eastgate
35-43 Ffordd Casnewydd
Caerdydd
CF24 0AB

Ffôn: 029 20460099
Ffacs: 029 20475850

Cyngor y Gweithlu Addysg
Education Workforce Council

9th Floor
Eastgate House
35-43 Newport Road
Cardiff
CF24 0AB

Tel: 029 20460099
Fax: 029 20475850

ymdrechion i wella ansawdd addysgu a dysgu a chyfrannu at wella profiadau myfyrwyr mewn prifysgolion yng Nghymru.

**Statws y Cyngor**

Mae'r Cyngor yn nodi bod CGA wedi'i gynnwys ochr yn ochr ag Estyn ar restr o 'gyrff cyhoeddus' sy'n rhan o'r Memorandwm Esboniadol. Fodd bynnag, tra bod Estyn yn derbyn ei holl gyllid gan Lywodraeth Cymru, caiff y Cyngor ei gyllido drwy ffioedd gan ymarferwyr addysg cofrestredig (er ein bod ni'n derbyn elfen o gyllid grant gan Lywodraeth Cymru yn gyfnewid am ymgymryd â gweithgareddau penodol ar ei rhan). Mae statws CGA felly'n wahanol i statws Estyn a hoffem dynnu hyn at sylw'r Pwyllgor.

**Achredu rhaglenni addysg gychwynnol athrawon (AGA)**

Mae'n braf gan y Cyngor nodi bod y rôl mae'n ei chwarae wrth achredu (a monitro cydymffurfiaeth) rhaglenni addysg gychwynnol athrawon (AGA) yng Nghymru yn cael ei chydnabod yn y Memorandwm Esboniadol a'i bod yn cael ei nodi'n benodol (ym mharagraff 3.241) mai dim ond rhaglenni AGA a gaiff eu hachredu gan CGA fydd yn gymwys i dderbyn cyllid gan y Comisiwn.

Fodd bynnag, dymuna'r Cyngor wahodd y Pwyllgor i ystyried mater pellach na eir i'r afael ag ef yn y Bil, sef darpariaeth rhaglenni AGA ar gyfer y sawl sy'n addysgu yn y sector Ôl-16. Mae'r Cyngor wedi nodi adroddiad thematig Estyn a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2021 ar 'Addysg gychwynnol athrawon yn y sectorau addysg a hyfforddiant ôl-orfodol'. Mae'r adroddiad yn ystyried cymwysterau AGA presennol yng Nghymru, yn nodi nifer o themâu allweddol ac yn cynnig argymhellion, gan gynnwys galw am adolygiad strwythuredig o ddarpariaeth AGA AHO. Mae'r Cyngor yn cytuno gyda'r argymhellion a nodir yn yr adroddiad hwn a gwahoddwn y Pwyllgor i ystyried manteision dyfarnu achrediad CGA i raglenni AHO diwygiedig.

**Safonau proffesiynol**

Mae'r Cyngor yn nodi bod cyfrifoldebau cyffredinol y Comisiwn, fel y nodwyd ym mharagraff 5(2) o'r Bil, yn cynnwys 'gofynion rhesymol aelodau o'r gweithlu addysg drydyddol am ddatblygiad proffesiynol parhaus'. Mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn nodi y byddai "creu'r Comisiwn yn cynnig cyfle i alinio safonau proffesiynol a chymwysterau i ymarfer (addysgu ar lefel addysg drydyddol) ar draws y ddarpariaeth Ôl-16". Dylai'r Pwyllgor nodi bod gan CGA gylch gwaith eisoes, fel y nodir mewn deddfwriaeth, ar gyfer safonau addysgu yn y sectorau AB a DSW. Byddem felly'n gwahodd y Pwyllgor i ystyried y rhesymeg dros unrhyw ddatganoli cyfrifoldeb dros safonau i'r Comisiwn (sydd yn ôl pob golwg yn gorff cyllido / sicrhau ansawdd). Mae'r Cyngor hefyd yn nodi nad oes unrhyw gyfeiriad tebyg at unrhyw rôl o'r fath i'r Comisiwn mewn perthynas â safonau proffesiynol ar gyfer gweithwyr proffesiynol AU.

Dymunwn amlygu hefyd, i'r Pwyllgor, ein safbwynt hirsefydlog y dylai safonau proffesiynol gael eu datblygu a'u 'perchnogi' gan y corff proffesiynol perthnasol (sef CGA, yn achos y sectorau AB a DSW). Mae hyn yn unol ag arfer cyffredin mewn llawer o awdurdodaethau a phroffesiynau eraill

9fed Llawr
Tŷ Eastgate
35-43 Ffordd Casnewydd
Caerdydd
CF24 0AB

Ffôn: 029 20460099
Ffacs: 029 20475850

Cyngor y Gweithlu Addysg
Education Workforce Council

9th Floor
Eastgate House
35-43 Newport Road
Cardiff
CF24 0AB

Tel: 029 20460099
Fax: 029 20475850

(gan gynnwys y sector gofal cymdeithasol yng Nghymru, lle mae'r safonau proffesiynol yn cael eu perchnogi gan Ofal Cymdeithasol Cymru (Cyngor Gofal Cymru gynt)).

**Meysydd eraill lle dymuna CGA gael eglurhad pellach**

Mae nifer o feysydd eraill yn y Bil y byddai'n fanteisiol i'r Cyngor gael eglurhad yn eu cylch a gwahoddwn y Pwyllgor i ystyried y rhain:

- Dealltwriaeth y Cyngor yw bod dysgu seiliedig ar waith yn cael ei ddiffinio fel prentisiaethau yn unig yn y Bil. Mae hyn yn golygu bod rhychwant presennol DSW (sef cyflogadwyedd) wedi'i hepgor. Cred y Cyngor y dylai'r Bil nodi'n gliriach yr hyn sydd yng nghwmpas neu y tu allan i gwmpas cyfrifoldebau'r corff newydd, er mwyn sicrhau bod eglurder yn y sector.

- Nodwn fod y Bil yn nodi pwerau sylweddol i'r Comisiwn resymoli darpariaeth chweched dosbarth ar draws Cymru. Canlyniad posibl hyn yw y bydd dileu chweched dosbarthiadau o reolaeth awdurdodau lleol a'u cynnwys mewn corff mawr yn dileu atebolrwydd lleol am yr elfen unigryw hon o'n darpariaeth addysg.

- Dymuna'r Pwyllgor amlygu wrth y Pwyllgor hefyd bwysigrwydd sicrhau bod y Comisiwn yn gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol â'r holl randdeiliaid sy'n gysylltiedig â'r sector addysg drydyddol yng Nghymru, gan gynnwys SAU, SAB, darparwyr DSW, ymarferwyr, undebau llafur a CGA, er mwyn cyflawni ei amcanion.

Gobeithio bod yr wybodaeth hon o gymorth. Mae croeso i chi gysylltu â mi os gallaf gynorthwyo ymhellach.

Yn gywir iawn

Hayden Llewellyn
Prif Weithredwr